ADFENT 2

ESEIA 11:1-10; SALM 72:1-7, 18-19;
RHUFEINIAID 15:4-13; MATHEW 3:1-12

● **Gweddi agoriadol**
Amser paratoi yw hwn,
adeg cerdded tua Bethlehem,
gan unioni'r llwybr
fydd yn arwain eraill
i bresenoldeb y dwyfol.
Down â'n hanrhegion i ti –
a dim un yn fwy
nag offrwm ein calonnau
mewn moliant a chlod.

● **Moliant**
Ysbryd doethineb,
gorffwys arnom;
rho i ni
ddealltwriaeth
a chynnydd yn ein ffydd.

Ysbryd gwybodaeth,
gorffwys arnom;
rho i ni
ddirnadaeth
yn ein penderfyniadau.

Ysbryd grym,
gorffwys arnom;

rho i ni
ffyddlondeb
pan fyddwn yn ysbrydol wan.

Ysbryd Duw,
sy'n bresennol yn Iesu,
y Gwaredwr,
gorffwys arnom
yr Adfent hwn, yw'n gweddi.

● **Cyffes**
Dduw'r Adfent,
teithiwn gyda thi
at stabl Bethlehem
a brenin newydd-anedig,
a'n clustiau yn gwrando
am gân angylion,
a'n llygaid yn chwilio
am seren Bethlehem.

Maddau i ni
os cawn, ar ein taith,
ein hudo
gan gynigion bras
y byd o'n cwmpas.
Cadw ein calonnau yn wresog
gan addewid
yr Adfent,
a genedigaeth
ein Gwaredwr.

● **Diolch**

Dduw gobaith
a ddaeth â chariad i'n byd,
diolch am y cariad sy'n preswylio rhyngom.

Dduw gobaith
a ddaeth â heddwch i'n byd,
diolch am yr heddwch sy'n preswylio rhyngom.

Dduw gobaith
a ddaeth â llawenydd i'n byd,
diolch am y llawenydd sy'n preswylio rhyngom.

Dduw gobaith,
y graig y safwn arni,
diolch am y weledigaeth sy'n ein huno
y diwrnod hwn
a thrwy dymor yr Adfent.